

## Telerau ac Amodau'r Gystadleuaeth

### Cystadleuaeth Hamper Nadolig Cymru yn Ailgylchu x Castell Howell ('yr Hyrwyddiad):

1. Hyrwyddwr yr Hyrwyddiad yw WRAP, sy'n Elusen gofrestredig yn y DU (Rhif. 1159512) a'i gyfeiriad yw Second Floor, Blenheim Court, 19 George Street, Banbury, Oxon, OX16 5BH.
2. Mae'r gystadleuaeth am ddim hon yn agored i drigolion Cymru sy'n 18 mlwydd oed neu'n hŷn. Ni chaniateir i gyflogeion WRAP nac aelodau o'u teuluoedd nac unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â'r Hyrwyddiad mewn unrhyw ffordd neu sy'n helpu i drefnu'r Hyrwyddiad gymryd rhan ynddo.
3. O gymryd rhan yn yr Hyrwyddiad, ystyrir eich bod wedi derbyn y telerau ac amodau hyn felly darllenwch nhw'n ofalus cyn cymryd rhan yn yr Hyrwyddiad.
4. Nid yw'r Hyrwyddiad wedi'i noddi, ei gymeradwyo, ei weinyddu na'i gysylltu â Twitter na Facebook na Castell Howell Foods Cyf mewn unrhyw ffordd.
5. Bydd unrhyw wybodaeth bersonol a roddwch wrth gymryd rhan yn yr Hyrwyddiad yn cael ei gadw a'i brosesu gan yr Hyrwyddwr yn unol â Pholisi Preifatrwydd WRAP: <http://www.wrap.org.uk/content/privacy-policy>
6. Mae'r Hyrwyddiad yn dechrau 03 Rhagfyr 2021 am 10:00 (GMT) ac yn dod i ben am 23:59 (GMT) ar 17 Rhagfyr 2021.
7. Rhaid i'r cynigion gael eu derbyn ar ôl 10:00 (GMT) ar 03 Rhagfyr 2021 a chyn 23:59 (GMT) ar 17 Rhagfyr 2021. Ni fydd cynigion a dderbynnir y tu allan i'r cyfnod hwn yn ddilys.
8. Cyfyngir cynigion i un fesul person. Os bydd ymgeiswyr yn postio mwy nag un cynnig, yna dim ond y cynnig cyntaf fydd yn cyfrif.
9. Bydd unrhyw ymgeiswyr a ganfyddir eu bod yn defnyddio mwy nag un cyfrif i gymryd rhan yn anghymwys.
10. Bydd un enillydd, a ddewisir ar hap ar 20 Rhagfyr 2021 o blith yr holl gynigion dilys a wnaed ar Facebook a Twitter.
11. Gallwch gymryd rhan yn yr Hyrwyddiad ar Facebook neu Twitter.

## 12. I gymryd rhan, rhaid ichi:

### Facebook

- Ymateb i'r bost sydd wedi'i binio i ben tudalen Facebook Wales Recycles neu Cymru Yn Ailgylchu thagio un ffrind y byddech chi'n rhannu'r wobwr gydag.
- Dilyn tudalen Cymru Yn Ailgylchu (@WalesRecycles a/neu @CymruYnAilgylchu) a Castell Howell (@Castell Howell) ar Facebook

### Twitter

- Ymateb i'r bost sydd wedi'i binio i ben tudalen Twitter Wales Recycles neu Cymru Yn Ailgylchu thagio un ffrind y byddech chi'n rhannu'r wobwr gydag
- Dilyn tudalen Cymru Yn Ailgylchu (@WalesRecycles a/neu @CymruYnAilgylchu) a Castell Howell (@Castell Howell) ar Twitter.

13. Bydd unrhyw ymgais gyda chynnwys sarhaus neu enynnol, sy'n torri hawlfraint neu'n torri canllawiau cynnwys Facebook a/neu Twitter, yn cael eu pennu'n annilys a gallai unigolion gael eu riportio i safle'r cyfrwng cymdeithasol.
14. Peidiwch â rhannu gwybodaeth bersonol ar eich cynigion fel cyfeiriadau, rhifau ffôn, cyfeiriadau ebost neu fanylion cysylltu ar-lein eraill a allai fod yn gysylltiedig â chi neu unigolion eraill.
15. Un wobwr sy'n rhan o'r raffl wobwr hon, sef Hamper Cwtch a gyflenwir gan Castell Howell Foods Cyf, yn amodol ar argaeledd.
16. O gymryd rhan yn yr Hyrwyddiad, rydych yn rhoi caniatâd i WRAP ddefnyddio eich ffotograff yn eu cyfathrebu am Cymru yn Ailgylchu, ac ar wefan Cymru yn Ailgylchu a'i sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol.
17. Cysylltir â'r enillydd trwy'r cyfrwng cymdeithasol a ddefnyddiwyd i gyflwyno eu hymgais i'r Hyrwyddiad erbyn 17:00 ar 20 Rhagfyr 2021.
18. Rhaid i'r enillydd roi prawf adnabod i'r Hyrwyddwr ynghyd â phrawf o'u cyfeiriad cartref er mwyn cadarnhau eu bod yn gymwys cyn cael ei gadarnhau'n enillydd terfynol a chyn y trefnir i'r wobwr gael ei danfon.
19. Os na fydd yr Hyrwyddwr yn derbyn ymateb gan enillydd o fewn 72 awr i'w ymgais gyntaf i gysylltu, os bydd yr enillydd yn gwrthod ei wobwr, neu os yw'r ymgais a dynnwyd yn y raffl yn cael ei phennu'n annilys neu'n groes i'r telerau ac amodau hyn, yna bydd y wobwr yn cael ei fforffedu a bydd hawl gan yr Hyrwyddwr i ddewis enillydd arall.
20. Caiff y wobwr ei danfon i'r enillydd i'w cyfeiriad cartref ar dir mawr Prydain. Bydd danfon i gyfeiriad yn y DU sydd oddi ar y tir mawr yn golygu costau danfon ychwanegol.

21. Nid yw'r Hyrwyddwr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r wobwr nad ydynt wedi'u cynnwys yn benodol yn y wobwr.
22. Ceidw'r Hyrwyddwr yr hawl i gynnig gwobr amgen o'r un gwerth neu werth mwy pe na fyddai'r wobwr wreiddiol ar gael am resymau y tu hwnt i'w reolaeth resymol. Ni ellir cyfnewid na throsglwyddo'r wobwr ac ni chaniateir ei chyfnewid am arian parod na gwobrau eraill.
23. Ceidw'r Hyrwyddwr yr hawl ar unrhyw adeg, ac o bryd i'w gilydd, i addasu neu ganslo'r gystadleuaeth hon dros dro neu'n barhaol, heb rybudd o flaen llaw o ganlyniad i resymau y tu hwnt i'w reolaeth.
24. Ni fydd yr Hyrwyddwr yn atebol am unrhyw fethiant i dderbyn ceisiadau ac nid yw'n gyfrifol am geisiadau coll, gohiriedig, annarllenadwy, llygredig, difrodedig, anghyflawn neu annilys fel arall.
25. Nid yw'r Hyrwyddwr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddifrod, colled, rhwymedigaethau, anaf neu siom a achoswyd neu a ddioddefwyd o ganlyniad i gymryd rhan yn yr Hyrwyddiad neu dderbyn y wobwr. Ni fydd unrhyw beth yn eithrio atebolrwydd yr Hyrwyddwr am farwolaeth neu anaf personol o ganlyniad i'w esgeulustod.
26. Os bydd unrhyw ddarpariaeth o'r telerau a'r amodau hyn yn cael eu gwneud yn annilys gan unrhyw gyfraith, rheol, gorchymyn neu reoleiddio unrhyw lywodraeth, neu drwy benderfyniad terfynol unrhyw lys ag awdurdodaeth gymwys, ni fydd yr annilysrwydd hwnnw yn effeithio ar orfodadwyedd unrhyw ddarpariaethau eraill.
27. Mae penderfyniad y panel beirniaid yn derfynol ac ni chymerir rhan mewn unrhyw ohebiaeth bellach.